

Datganiad Sefyllfa Llywodraeth Cymru

Cynllun Datblygu Lleol newydd Cyngor Sir Penfro

– Maethynnau

Y cyd-destun

1. Mae'r datganiad hwn yn egluro sut y dylid cymhwyso'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3, Mawrth 2020) i gynlluniau datblygu lleol newydd sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â maethynnau, ac yn benodol, mewn perthynas â'r meddylfryd i addasu sy'n angenrheidiol ar gyfer symud tuag at ddull integredig a chyflawnadwyedd.
2. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mabwysiadu safbwynt pragmataidd ar gyfer y cynllun hwn, ar yr adeg hon, o ystyried yr amgylchiadau unigryw sy'n bodoli. Rhaid ystyried canllawiau (adran 75 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004) wrth ystyried 'cadernid' cynlluniau. Safbwynt Llywodraeth Cymru yw y dylid rhoi pwyslais sylweddol i'r datganiad sefyllfa hwn wrth archwilio'r cynllun oherwydd ei fod yn egluro canllawiau, ar y mater penodol hwn yn unig.
3. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) fel y'i diwygiwyd yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi ac archwilio cynlluniau datblygu lleol, gan gynnwys cynlluniau datblygu lleol newydd, yng Nghymru. Mae adran 64(5) yn egluro mai diben yr archwiliad yw penderfynu a yw cynllun datblygu lleol yn 'gadarn' ac a yw wedi cydymffurfio â gwahanol ofynion gweithdrefnol, gan gynnwys y canlynol:
Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol Cynllunio Gwlad a Thref (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) (Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol). Yn ogystal, mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ofyniad cyfreithiol o dan 'Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017' (Rheoliadau Cynefinoedd), sy'n gweithredu'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd (Cyfarwydddeb y Cyngor 92/43/Y Gymuned Economaidd Ewropeaidd). Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol benderfynu a yw'r polisiâu a'r cynigion (gan gynnwys dyraniadau) yn y cynllun yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar gyfanrwydd unrhyw safleoedd dynodedig Ewropeaidd, fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol.
4. Mae Adran 75 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi bod rhaid ystyried unrhyw ganllawiau a baratoi gan Lywodraeth Cymru yn y broses o lunio cynlluniau. Y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yw'r canllawiau statudol cyfredol sy'n llywodraethu cynlluniau datblygu yng Nghymru. Mae pennod 6 o'r llawlyfr yn cynnwys canllawiau ynghylch y broses archwilio ac mae tabl 27 (tudalen 166) yn cynnwys y profion cadernid sy'n sail i'r ffordd y mae cynlluniau'n cael eu harchwilio. Mae paragraff 6.27 o'r llawlyfr yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cynlluniau mewn perthynas â'r profion cadernid a bydd unrhyw sylwadau a wneir yn cael eu hystyried fel rhan o'r archwiliad, ar y cyd â'r rhai a gyflwynwyd gan bartïon eraill.
5. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *“Datganiad polisi cynllunio interim ar Ddatblygu mewn afonydd ardaloedd cadwraeth arbennig”* a chanllawiau cysylltiedig ym mis Awst 2025. Cafodd materion yn ymwneud â maethynnau wrth baratoi cynlluniau eu trafod yn benodol fel rhan o'r nodyn egluro *“Cymhwyso'r profion cadernid i gynlluniau datblygu lleol lle gall maetholion ychwanegol effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)”* a gyhoeddwyd ar 27 Mawrth 2026

- 6 Ar ôl adolygu ail gynllun adneuo cynllun datblygu lleol newydd Cyngor Sir Penfro, y newidiadau â ffocws a'r dogfennau cyflwyno cysylltiedig, mae'r arolygydd(ion) wedi nodi nifer o faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw cyn y gall yr archwiliad fynd rhagddo. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn eu llythyrau at y cyngor dyddiedig 2 Rhagfyr 2025 ac 8 Mai 2026. Mae paragraffau 7 ac 8 isod yn crynhoi eu safbwynt.
- 7 Mae'r potensial ar gyfer dull integredig wedi'i ystyried gan yr arolygydd(ion) ond naill ai nid yw'r mesurau angenrheidiol ar gyfer dibynnu ar ddull integredig wedi'u nodi, nid ydynt yn gysylltiedig â cherrig milltir y cytunwyd arnynt neu nid ydynt yn ddiogel (heb eu cysylltu â mecanwaith cyflenwi priodol) yn y cynllun datblygu lleol newydd. Maent yn cydnabod na fyddai'n rhesymol darparu gwybodaeth i lefel uchel o fanylder a sicrwydd, ond maent yn nodi y bydd angen rhyw arwydd o natur ac amseriad tebygol camau priodol yn y cynllun datblygu lleol newydd. Ond yn absenoldeb digon o wybodaeth i'r perwyl hwn, a'r ffaith nad yw safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yng ngoleuni'r newidiadau â ffocws diweddaraf yn hysbys, gofynnir am ragor o wybodaeth gan yr awdurdod cynllunio lleol ar niwtraliaeth o ran maethynnau.
- 8 Mae'r wybodaeth bellach y mae ei hangen i osgoi effaith andwyol ar gyfanrwydd yn seiliedig ar yr unig lwybr sydd ar gael ar gyfer y cynllun, sef niwtraliaeth o ran maethynnau. Maent hefyd yn nodi nad yw goblygiadau dichonoldeb a chyflawnadwyedd o ran sicrhau unrhyw fesurau lliniaru posibl yn glir ar hyn o bryd ac yn nodi y gallai fod angen mwy o waith i ystyried goblygiadau dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos CG Fry & Son Ltd yn erbyn SSHCLG [2025] UKSC 35 y cyfeirir ato yn natganiad sefyllfa'r cyngor.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â maethynnau

- 9 Mae'r datganiad hwn yn mynd i'r afael â materion gweithdrefnol a chyflawnadwyedd sy'n adlewyrchu'r Datganiad polisi cynllunio interim, canllawiau Llywodraeth Cymru/DTA a'r nodyn egluro, ond wrth wneud hynny, mae'n tynnu sylw at eu cymhwysiad penodol i amgylchiadau cynllun datblygu lleol newydd Cyngor Sir Penfro. Dylid nodi bod cynnydd o ran mynd i'r afael â maethynnau yn esblygu a bydd gan bob awdurdod cynllunio lleol amgylchiadau penodol i ddelio â nhw. **Felly, bydd angen ystyriaeth hyblyg ac addasol gan bob rhanddeiliad, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ar gyfer cynlluniau datblygu lleol yn y dyfodol.**
- 10 Mae Llywodraeth Cymru yn ffafrio dull integredig, sydd yn ei natur yn ddeinamig a bydd bob amser yn esblygu dros amser. Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu ynghylch y goblygiadau sy'n deillio o'r unig lwybr sydd ar gael y mae Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) ar hyn o bryd yn ei hystyried ar gyfer cynllun datblygu lleol newydd Cyngor Sir Penfro i ddangos niwtraliaeth o ran maethynnau o ddechrau cyfnod y cynllun, gan ddiystyru mabwysiadu dull integredig lle nad yw camau a mesurau o bosibl yn hysbys yn llawn ar ddechrau cynllun. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch cyflawni strategaeth y cynllun, y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried nad oes strategaeth gynaliadwy amgen iddi, goblygiadau o ran hyfywedd safleoedd yn y dyfodol ac yn atal y cyfle i'r broses gynllunio gyfrannu at amcanion adfer yr ACA.
- 11 Fel safbwynt polisi, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru ddull integredig, a ddatblygwyd ar lefel strategol, fel ffordd o yrru gwelliant rhagweithiol o

ACA afonol a morol sy'n cael eu heffeithio gan faethynnau yn ei flaen. Mae dull o'r fath yn galw am fabwysiadu meddylfryd rheoli addasol sy'n cydnabod natur esblygol a pharhaus y camau a'r mesurau y mae eu hangen i gyflawni'r amcan o adfer ACAu a rhyngddibyniaeth y mesurau hyn â datblygiad cynlluniedig.

- 12 Mewn cyferbyniad, nid dibynnu ar niwtraliaeth o ran maethynnau fel y prif opsiwn ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu yw'r dull a ffeirir wrth edrych ymlaen dros gyfnod o 15 neu 20 mlynedd, gan nad yw'n rhoi cyfle i wella. Mae dull integredig yn gweithio gyda newid, ac yn mynnu newid dros amser. Fel llwybr, bydd niwtraliaeth o ran maethynnau yn parhau i chwarae rhan fel mesur wrth gefn, ond nid dyma'r opsiwn strategol a ffeirir.

Dull integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

- 13 O safbwynt gweithdrefnol Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd, mae niwtraliaeth o ran maethynnau wedi cael ei ystyried hyd yn hyn fel ffordd ddiofyn o fodloni'r prawf cyfanrwydd mewn corff dŵr sy'n methu pan gymhwysir erthygl 6(3) ar wahân i weddill erthygl 6. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru/DTA yn nodi bod ystyried Erthygl 6 o'r gyfarwydddeb yn ei chyfanrwydd fel rhan o ddull integredig yn ffordd fwy effeithiol o ryddhau datblygiad a gwella adferiad mewn ACA sy'n methu, gan nodi bod yn rhaid i linell sylfaen/taflwybr sy'n gwella ar gyfer ACA fod ar gael a bod yn rhaid i'r mesurau sy'n ofynnol ar gyfer gwella fod yn gyraeddadwy yn ymarferol ac yn amodol ar y profion a amlinellir yn y datganiad polisi cynllunio interim.
- 14 Pan gymerir dull integredig, gellir ail-lunio cwestiwn y prawf cyfanrwydd o dan erthygl 6(3) o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd oherwydd bod camau ehangach yn cael eu cymryd o dan erthygl 6(1) a 6(2) o'r gyfarwydddeb i adfer yr ACA. Mae paragraffau 19 a 22 o'r nodyn egluro yn cyfeirio.
- 15 O dan ddull integredig gellir gwerthuso mesurau lliniaru yn erbyn llinell sylfaen/taflwybr sy'n gwella, sy'n codi o ganlyniad i gyflawni dyletswyddau rheoli ac adfer ehangach. Ceisir dyletswyddau adfer gan gyrrff statudol, tra bod mesurau lliniaru yn cael eu cyflawni gan gynigwyr prosiectau. Fodd bynnag, gall mesurau lliniaru gynnwys mesurau i osgoi unrhyw oedi yn y gyfradd gwelliant a fyddai wedi codi pe na bai cynllun neu brosiect wedi'i gyflwyno.
- 16 Mewn dull integredig, bydd datblygiad sy'n cael ei gynnig mewn cynllun datblygu lleol newydd yn cyd-ddibynnu ar y camau a'r mesurau ehangach a nodwyd a bydd angen dull addasol i adlewyrchu amgylchiadau sy'n esblygu na fyddant yn aml yn hysbys ar ddechrau cyfnod y cynllun. Byddai angen cymhwyso cafeat polisi i adlewyrchu natur ddeinamig yr amgylchiadau cyffredinol ac i ddarparu'r gwarchodaeth eithaf sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau nad yw cyfanrwydd yr ACA yn cael ei effeithio'n andwyol wrth i'r cynllun gael ei weithredu.

Diben profion cadernid

- 17 Dibenion y profion 'cadernid' yw eu cymhwyso i'r cynllun datblygu lleol/cynllun datblygu lleol newydd ar lefel llunio'r cynllun. Nid ydynt yn berthnasol i gais cynllunio. Pan gânt eu cymhwyso i lefel y cynllun nid ydynt yn gorfodi dull mathemategol/wyddonol, wedi'i

Commented [JG1]: This appears to be an incomplete sentence. Diolch

gymhwyso i'r radd eithaf. Nid gwyddoniaeth union yw llunio cynlluniau. Mae'n bwysig cofio na all y broses o lunio cynllun, a dangos tystiolaeth ohono, sy'n cwmpasu cyfnod o 15 mlynedd (20 mlynedd pan gaiff ei gymhwyso i Gynllun Datblygu Strategol) fod yn fanwl gywir.

Mae cynlluniau datblygu yn ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gyfiawnhau'r penderfyniadau, y polisiau a'r dyraniadau ar gyfer y cyfnod sydd i ddod (15/20 mlynedd). Fodd bynnag, dros gyfnod cynllun gall/bydd nifer o amgylchiadau'n newid am amrywiaeth o resymau. Er enghraifft, wrth ystyried asesiadau o hyfywedd ariannol i gyflawni datblygiad, gall marchnadoedd economaidd amrywio dros amser (er enghraifft, effeithiau rhyfel Iran), a byddant yn gwneud hynny. Gall model y cytunwyd arno gael ei ddatblygu, fel sy'n wir nawr, ond bydd y mewnbynnau'n amrywio dros gyfnod y cynllun, megis cost deunyddiau. Ni all modelau ragweld hyn, er y gallant gynnwys rhywfaint o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer amgylchiadau o'r fath. Cyfeirir at hyn yn aml fel hyblygrwydd. Dyma'r achos ar hyn o bryd ar gyfer cynlluniau datblygu lleol.

19 Yn ogystal, bydd datblygiadau mewn technoleg ac asesiad gwyddonol dilynol o ran datrys problemau sy'n bodoli eisoes a nodi datrysiadau. Ar gyfer maethynnau ac ACAu mae angen cydlynu mesurau ac ymdrechion sydd mewn rhai achosion eisoes ar y gweill neu yr ymrwymwyd iddynt. Mae'r ansicrwydd sy'n bodoli nes bod mesurau wedi'u nodi yn golygu bod goblygiadau ar gyfer nodi costau ariannol wrth gyflawni datrysiadau hysbys a rhai sy'n dod i'r amlwg a'r rhai a allai ddod i'r amlwg yn y dyfodol nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd. Efallai hefyd y bydd costau'n newid dros amser.

20 Dylid nodi hefyd fod y profion 'cadernid' yn berthnasol i bob agwedd ar baratoi cynlluniau gan adlewyrchu'r strategaeth a ddewiswyd ac yn cynnwys hyfywedd ariannol i ddwyn datblygiad yn ei flaen, costau amrywiol gwahanol ddatrysiadau, amseriad y ddarpariaeth i ddiwallu anghenion a chyfyngiadau ar gyflenwi, yn ogystal ag i gynlluniau datblygu lleol a chynlluniau datblygu strategol. Nid oes gofyniad am brawf ar wahân ar gyfer pwnc penodol, fel maethynnau, oherwydd y dylai egwyddor y profion cadernid fod yn berthnasol yn gyfartal i bob mater.

21 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cyfeirio at geisiadau datblygu neu drwydded rhyddhau dŵr ar gyfer datblygiadau sy'n niwtral o ran maethynnau, a bod yn rhaid iddynt ddangos bod pob (saith) egwyddor wedi'u cymhwyso. Mae rhai o'r egwyddorion hyn yn ymddangos yn briodol ar gyfer llunio cynlluniau. Er enghraifft, defnyddio'r gyfrifiannell maethynnau i gynorthwyo wrth fesur y llwyth ychwanegol posibl ar y system, nodi cynigion lliniaru, costau posibl, mesurau lliniaru ar y safle a thechnolegau. Ymddengys fod hyn yn ddull pragmataidd.

22 Fodd bynnag, mae meysydd, wrth adlewyrchu'r sylwadau uchod ynghylch cywirdeb cyfrifiadau a'r technolegau y mae eu hangen i ddangos niwtraliaeth o ran maethynnau, yn cynnwys elfennau nad oes modd eu hadnabod/eu costio'n benodol eto. Mae hyn yn cyfeirio at wyddoniaeth lliniaru sy'n esblygu, felly hefyd natur, math a thir a ddefnyddiwyd y mesurau lliniaru, yn ogystal ag amrywiadau o ran cost.

23 Er bod modelu hyfywedd ariannol cyfredol yn ymgorffori data fel y dystiolaeth orau a chostau hysbys, wrth i dechnoleg ddatblygu bydd costau'n amrywio a gall gofynion lliniaru newid. Ni fyddai hyn yn hysbys ar hyn o bryd. Ymddengys hyn

yn ddull rhesymol i'w fabwysiadu yn y broses o lunio cynllun. Ymhellach, symud tuag at ddull integredig fydd y ffordd orau o hwyluso'r ddealltwriaeth sy'n angenrheidiol i wella ac adfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig tra, ar yr un pryd, yn nodi'r cyfraniadau ariannol priodol o ddatblygiad.

Dull arfaethedig ar gyfer Sir Benfro

- 24 Yn ogystal â'r sylwadau cyffredinol uchod, mae amgylchiadau penodol ac unigryw sy'n ymwneud â chyd-destun cynllun datblygu lleol newydd Cyngor Sir Penfro sy'n ychwanegu pwysau pellach at yr angen i fabwysiadu dull integredig o fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â maethynnau **y gellir ei addasu.**
- 25 Cydnabyddir bod cyflawni niwtraliaeth o ran maethynnau yn ffordd fwy sefydledig o leihau lefel yr ansicrwydd mewn perthynas â'r effeithiau ar gyfanrwydd safle o'i gymharu â dibynnu ar ddull integredig na ellir ei ddangos yn llawn ar ddechrau cynllun. **Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd dangos yn llawn y gellir cyflawni niwtraliaeth o ran maethynnau dros gyfnod y cynllun yn fwy sicr na dibynnu ar ddull integredig sy'n esblygu.**
- 26 Mae hyn yn arbennig o wir am gynllun datblygu lleol newydd Cyngor Sir Penfro lle nad oes opsiynau strategaeth datblygu amgen ar gael, neu gynaliadwy, a lle mae problemau gyda maethynnau wedi'u codi ar gam cymharol hwyr o baratoi cynllun pan na fyddai'n bragmatig ailystyried gwerthoedd hyfywedd meincnod. At hynny, mae CNC wedi rhoi ymrwymadau yn ddiweddar i symud tuag at ddull integredig yn y dalgylchoedd perthnasol, a fyddai'n rhoi'r cyfle i sefydlu mecanwaith monitro a rennir rhwng yr awdurdod cynllunio lleol ac CNC.
- 27 Mae CNC wedi ymrwymo i baratoi cynlluniau lleihau maethynnau dalgylchoedd er mwyn cyflawni dull integredig. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi'r camau i'w cymryd, a'r mesurau y mae eu hangen i wella'r ACAau perthnasol. Bydd angen integreiddio'r camau a'r mesurau hyn â chynlluniau cyflawni a rheoli eraill, gan gynnwys cynlluniau rheoli maethynnau, cynlluniau rheoli basnau afonydd ac unrhyw fecanweithiau gweithredu a ddatblygwyd gan Sir Benfro fel rhan o'u hasesiad o gynlluniau o dan y rheoliadau cynefinoedd.
- 28 Lle nad yw'r llu o fesurau wedi'u cydlynu eto drwy gynlluniau, ond bod ymrwymiad i wneud hynny a bod y sefyllfa sy'n esblygu, er nad yw'n hysbys yn llawn, yn debygol o fod yn gyraeddadwy yn ymarferol, bydd yn rhesymol tybio y gellir mabwysiadu dull addasol o ymdrin â maethynnau, yn amodol ar fesurau diogelwch priodol, wrth fodloni gofynion gweithdrefnol o dan y gyfarwydddeb a'r rheoliadau cynefinoedd. Yn hyn o beth, gall datblygiad ddod yn rhan o'r datrysiad wrth symud ymlaen dros gyfnod y cynllun ond yn amodol ar reolaeth briodol trwy gafeat polisi a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i sefyllfa ragosodedig o niwtraliaeth o ran maethynnau os dangosir bod y llinell sylfaen/taflwybr sy'n gwella yn dechrau disgyn.
- 29 Bydd CNC yn datblygu'r cynlluniau hyn ar gyfer dalgylchoedd Cledau (Corff Dŵr Mewnol y Ddau Gledau) a Llŵchwr (Corff Dŵr Mewnol Cilfach Tywyn), ar gyfer ffosfforws a nitrogen, dros gyfnod o chwe mis (yn dechrau gwanwyn/haf 2026). Felly, mae cynnydd tuag at linell sylfaen/taflwybr gwell ac adferiad cyffredinol wedi'i ymrwymo iddo, a bydd yn parhau dros amser. Mae'r ymrwymiad i ddatblygu a gweithredu

dull integredig yn golygu y bydd yr holl randdeiliaid perthnasol yn cael eu cymhell i weithio tuag at gyflawni amcan adfer yr ACA dros yr hirdymor (a thros gyfnod y cynllun presennol).

- 30 Fel rhan o ddull addasol o'r fath, bydd cerrig milltir a mecanweithiau monitro priodol yn cael eu sefydlu yn y cynlluniau i gyflawni'r mesurau ehangach o dan erthygl 6(1) a (2) o'r gyfarwydddeb. Byddai mecanwaith cafeat polisi priodol yng nghynllun datblygu lleol newydd Cyngor Sir Penfro yn sefydlu'r fframwaith y gall yr awdurdod cynllunio lleol nodi'r rhyngddibyniaeth rhwng y mesurau yn y cynlluniau sy'n esblygu a'r polisiâu a'r cynigion yn y cynllun. Fel y bo'n briodol, gellir nodi manylion pellach, a allai fod yn anhysbys ar adeg yr archwiliad, yn y canllaw cynllunio atodol sydd hefyd yn gwneud y cysylltiad uniongyrchol a pharhaus rhwng y cynlluniau, ei fframwaith monitro a'r adroddiad monitro blynyddol/fframwaith ar gyfer y cynllun datblygu lleol newydd. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer nodi graddfa cyfraniadau datblygwyr a allai fod yn ofynnol a gellir eu hadolygu wrth i'r broses o weithredu'r cynllun fynd rhagddi.
- 31 Yn y senario sy'n esblygu hwn, gellir defnyddio llwybrau eraill hefyd, fel y bo angen, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni. Mae paragraff 32 o nodyn egluro Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at ddull *de minimis*. Gellir mabwysiadu dull o'r fath ar gyfer ymrwymadau sy'n bodoli eisoes lle gellir sgrinio'r rhain allan yn seiliedig ar asesiad ymlaen llaw a lle cyfunir hyn â llwybrau ychwanegol i gyflawni strategaeth ehangach y cynllun a'r dyraniadau arfaethedig, trwy symud, mewn ffordd addasol, tuag at ddull integredig.
- 32 Lle nad oes modd cyflawni'r mesurau yn y cynlluniau, gallai hyn effeithio ar gyflawni'r cynllun datblygu lleol, felly bydd angen cyfyngu ar y gweithrediad parhaus nes y gellir bodloni'r gofynion. Felly, bydd niwtraliaeth o ran maethynnau yn parhau i fod yn sefyllfa wrth gefn (yn absenoldeb unrhyw lwybr amgen) gan ddefnyddio cafeat polisi fel ffordd o oedi'r broses gweithredu nes y gellir dangos bod cynnydd ar welliant yn ôl ar y trywydd iawn. Gall hyn ddigwydd lle nad yw cerrig milltir wedi'u nodi a'u sicrhau eto, lle mae cyrraedd y cerrig milltir y cytunwyd arnynt wedi oedi a/neu lle mae angen mesurau pellach neu ychwanegol.
- 33 Nid yw'r opsiwn i ddefnyddio safleoedd wrth gefn amgen er mwyn sicrhau y gellir cyflawni amcanion cyffredinol y cynllun o hyd ar gael i Gyngor Sir Penfro, felly mae'r angen i gynnal momentwm o ran gwelliant trwy ddull integredig yn hanfodol. **Nid oes unrhyw ddewisiadau eraill er mwyn sicrhau y gellir cyflawni system sy'n dilyn y cynllun yn cael ei chyflawni.**
- 34 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr anawsterau gydag ansicrwydd wrth i gynlluniau lleihau maethynnau dalgylchoedd ddod i'r amlwg, ond mae'n ystyried mai nodi camau a mesurau i osgoi dirywiad ansawdd dŵr ac adfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn unol ag amcanion cadwraeth yw'r ffordd orau y gall pob rhanddeiliad wella mewn ffordd deg a chyfiawn. Mae hyn yn bosibl i Gyngor Sir Penfro, ac mae modd cyrraedd dull integredig yn ymarferol.
- Dylai cynlluniau datblygu fod yn rhan o'r datrysiad ac nid yw Llywodraeth Cymru am weld cynnydd cynlluniau sydd â gorwel 15/20 mlynedd yn cael eu hatal**

rhag symud ymlaen yn seiliedig ar yr hyn nad yw'n gwbl hysbys ar ddechrau cyfnod y cynllun lle mae ymrwymiad hysbys i wella ACAau afonol a morol trwy ddarparu cynlluniau lleihau maethynnau dalgylchoedd.
Gellir nodi cyfraniadau effeithiol o ddatblygiad sy'n adlewyrchu gweithgarwch lliniaru ac adfer integredig yng nghamau cychwynnol y cynllun yn unol â'r cynlluniau lleihau maethynnau dalgylchoedd sy'n dod i'r amlwg.

Casgliad

- 36 I grynhoi, nid yw Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylid anwybyddu Prawf 3, yn benodol hyfywedd a chyflawnadwyedd, ar gyfer y cynllun hwn o ran mynd i'r afael â materion yn ymwneud â maethynnau. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes modd cyflawni'r gwaith o nodi manylion manwl ar gyfer y dyfodol ar hyn o bryd, ac nad yw'n angenrheidiol ar gyfer y cynllun hwn, ar gam mor ddatblygedig o'r cyfnod paratoi.
- 37 Mae paragraffau 13-16 uchod yn amlinellu dull integredig sy'n berthnasol i'w ddilyn yng nghynllun datblygu lleol newydd Cyngor Sir Penfro. Mae paragraffau 17-23 yn ychwanegu rhagor o fanylion am y mecanweithiau ar gyfer y dull hwn, tra bod paragraffau 24-35 yn nodi llwybr penodol i gynllun datblygu lleol newydd Cyngor Sir Penfro ei ddilyn er mwyn mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd gan yr arolygydd(ion). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn cynnig ffordd briodol ymlaen er mwyn sicrhau y gall yr archwiliad barhau, gwneud cynnydd, galluogi rhanddeiliaid i gyflwyno unrhyw sylwadau a hwyluso gwaith yr arolygydd(ion) o ystyried rhinweddau'r cynllun.

Sylwer: Llythyr Cyfarfod Archwiliadol. Paragraff 29

- 38 Mae paragraff 29 yn cyfeirio at ganlyniadau arfaethedig y cyfarfod archwiliadol. Mae'r pwynt bwled cyntaf yn argymhell bod y cynllun yn cael ei dynnu'n ôl ac na ddylai Gweinidogion Cymru ddirymu'r argymhelliad hwn. Ystyrir bod y cyfeiriad at lywio camau gweithredu posibl Gweinidogion Cymru y tu hwnt i gwmpas cylch gwaith deddfwriaethol unrhyw ganlyniadau arfaethedig.

Mark Newey
Rheolwr y Gangen
Cynlluniau
Cyfarwyddiaeth
Gynllunio Llywodraeth
Cymru
14 Mai 2025